# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-18-02 (min)

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 23 Hydref 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am i 12.25pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Geraint Davies | Y Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | **Aelodau Eraill** | |
| | Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru **(Eitem 2)** |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd **(Eitem 5)** |
| | **Swyddogion yn bresennol** | |
| | Chris Burdett | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| | Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |

| | |
|---|---|
| Peter Lawler | Yr Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Mike Ponton | Y Tîm Strategaeth a Chynllunio Iechyd a Lles |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Cyngor |
| Peter Jones | Cwnsler i'r Pwyllgorau (Eitem 2) |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Lynne Neagle a Jocelyn Davies. Cymerodd Huw Lewis le Lynne Neagle.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 1.2, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Dai Lloyd, ymarferydd cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog** *(9.00 - 10.10am)*

**Papur: HSS-18-02(p.1)**

2.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar ganfyddiadau'r archwiliad a wnaed gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (SSIW) o'r trefniadau ar gyfer diogelu preswylwyr mewn cartrefi y mae Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn eu contractio i Gymdeithas Tai Hafod. Amgaeir copi yn Atodiad A.

2.2 Croesawodd yr aelodau'r adroddiad, gan ddweud ei fod yn dangos gwerth cynnal archwiliad

annibynnol o dan amgylchiadau o'r fath. Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau am y datganiad, dywedodd y Gweinidog y byddai Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Tai Hafod yn paratoi cynlluniau gweithredu i ymateb i argymhellion yr adroddiad. Byddai Cymdeithas Tai Hafod yn gweithio'n agos ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar hyn ac ar egluro'r berthynas gontractiol rhyngddynt. Byddai'r Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr ar yr hyn a wnaed i fynd â'r argymhellion yn eu blaenau.

2.3 Dywedodd Graham Williams y byddai'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys amserlenni er mwyn iddynt allu monitro hynt y gwaith ym mhob maes y mae'r argymhellion yn ymdrin ag ef. Ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol y bu cylch gorchwyl ac arbenigedd SSIW yn hytrach nag ym maes materion personél, a adolygwyd yn yr adroddiadau gan Malcolm Evans a chwmni Eversheds a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerdydd. Roeddent wedi adolygu'r adroddiad yr oedd Eversheds wedi'i gynhyrchu i weld a oedd yn trafod unrhyw faterion gofal yr oedd angen eu cynnwys yn eu hymchwiliad, ac o ganlyniad roeddent wedi argymell y dylai'r awdurdod lleol adolygu ei weithdrefnau yng ngoleuni adroddiad Eversheds ac adroddiad Malcolm Evans. Cyn hynny, roedd y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ar ymchwilio i faterion o gam-drin, a oedd yn pwysleisio'r angen i wahaniaethu rhwng ymchwiliadau'r heddlu, materion disgyblu a materion yn ymwneud â gofal. Yn ôl adroddiad SSIW, nid ymdriniwyd yn ddigonol â materion gofal a byddent yn disgwyl i Gyngor Sir Caerdydd ddangos y gallai wahaniaethu rhyngddynt.

2.4 Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai neilltuo cryn dipyn o amser y Pwyllgor ym mis Ionawr i drafod nifer o faterion ym maes gwasanaethau cymdeithasol a oedd wedi codi yn sgil y broses adolygu ar y cyd. Diolchodd i'r Gweinidog am ymateb i bryderon yr Aelodau ynghylch y sefyllfa yn Hazelcroft a diolchodd i'r Arolygiaeth am gynnal yr ymchwiliad.

2.5. Gwnaeth y Gweinidog a'i swyddogion y pwyntiau canlynol mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau am yr adroddiad misol:

Adran 1: Materion Strategaeth

- Roedd y Strategaethau Deintyddol, Fferylleg ac Optometreg yn destun ymgynghoriad tan 31 Rhagfyr 2002, ac roedd yn fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yr ymatebion erbyn dechrau Chwefror 2003.
- Byddai'r Cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn cael eu penodi ar ôl iddynt dderbyn y swyddi'n ffurfiol.
- Nid oedd Prif Weithredwyr wedi'u penodi ar Fyrddau Iechyd Lleol Caerfyrddin a Sir Ddinbych. Roedd y broses o ddethol ymgeiswyr addas ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro yn mynd rhagddi. Penodwyd swyddogion ar gyfer Ynys Môn a Chasnewydd; ac roedd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer Abertawe, Sir Fynwy a Thor-faen.
- Ni lwyddwyd i benodi unrhyw un i swydd Cyfarwyddwr Cyllid Adran GIG Cymru yn ystod cylch cyntaf y broses. Yn dilyn hyn, roedd Swyddfa'r Cabinet wedi cymeradwyo uwchraddio'r swydd.

Adran 2: Perfformiad y GIG

- Sicrhawyd bod mwy o arian ar gael i ymdrin â phwysau brys a'r oedi wrth drosglwyddo gofal ac roedd y gwaith o nodi ffyrdd o gydweithio yn mynd rhagddo.
- Byddai adroddiad misol yn y dyfodol yn trafod canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd ar fethiant Ymddiriedolaethau Abertawe a Sir Gaerfyrddin ac Awdurdod Iechyd Dyfed Powys i gyrraedd targed amser aros o weld cleifion orthopedig o fewn 18 mis.
- Ni chafodd gwybodaeth am gyfraddau gweithgaredd ei chyhoeddi mewn pryd oherwydd pryderon ynghylch pa mor gywir yr oedd. Y gobaith oedd y byddai'n bosibl cyhoeddi gwybodaeth ar hynny ymhen wythnos neu ddwy.
- Roedd problem wedi codi ynghylch sut roedd diffinio gweithgaredd o ganlyniad i'r newid yn y ffordd yr oedd gofal iechyd yn cael ei ddarparu. Ni fyddai'r ystadegau yn adlewyrchu llawer o'r gwaith a wnaed i gadw pobl rhag mynd i'r ysbyty, e.e. nyrsys yn trin pobl yn y gymuned, gan eu bod yn seiliedig ar yr ysbytai.
- Roedd lefel uchel iawn o dderbyniadau brys yng Nghymru, a oedd yn rhoi mwy o bwysau ar y Gwasanaeth o ran rheoli gwelyau a'r gallu i wneud llawdriniaethau dewisol.
- Byddai'r Cynulliad yn parhau i roi cymorth ariannol i Gynllun ym Mhontypridd a'r Rhodda i Ryddhau Cleifion sy'n dioddef o Glefyd Ataliol Cronig y Llwybrau Anadlu yn Gynnar.

Adran 3: Gwella iechyd a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau

- Roedd busnesau bwyd cydweithredol wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Faethiad, a'r gobaith oedd y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod y Strategaeth yn y dyfodol agos.
- Roedd pwyllgor rheoli Epilepsi Cymru yn dal heb ymateb i'r cynnig o gymorth ariannol.

Adran 4: Rheoleiddio ac Archwilio Ansawdd

- Ar ôl cwblhau'r rhaglen o 22 o arolygiadau ar y cyd, byddai'n briodol astudio'r fethodoleg i weld a oedd unrhyw wersi i'w dysgu. Ni wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru unrhyw sylwadau am yr angen i newid y fformat. Wrth gynnal yr adolygiadau ar y cyd, cyflwynwyd barn o safbwynt y staff a'r defnyddwyr.

Adran 5: Gofal Cymdeithasol

- Byddai'r Canllawiau Gweithredol newydd ar gyfer Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) ar y rheoliadau a'r safonau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hn yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl eu cyhoeddi.
- Roedd y Gweinidog wedi trafod ei phryder ynghylch perfformiad y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr hefyd, yn mynegi pryderon y Pwyllgor.
- Roedd cyn-filwyr, yn ddynion ac yn wragedd, wedi'u cynnwys yn y buddsoddiad mewn awdioleg digidol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i amrywiaeth fawr o faterion sy'n effeithio ar gyn-filwyr, fel sy'n digwydd yn Lloegr.

Adran 8: Is-ddeddfwriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i'r Aelodau allu dweud ai eitemau newydd oedd yn y rhaglen ynteu rhai oedd wedi'u cario ymlaen o'r rhaglen flaenorol. Gofynnodd i rif unigryw gael ei roi i bob eitem yn y rhestr nesaf er mwyn i'r Aelodau allu olrhain eitemau o fis i fis. Gofynnodd hefyd am gael gwybod a oedd y ddeddfwriaeth yn hannu o'r UE, y DU neu o Gymru'n unig.
- Hysbysodd David Melding y Pwyllgor y byddai Grp y Ceidwadwyr am iddo ystyried y gorchmynion canlynol:
- Rheoliadau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i reoleiddio Asiantaethau Gofal yn y Cartref yng Nghymru;
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at anghenion personol) (Cymru) 2003;
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003.

**Camau i'w cymryd**

- Y manylion diweddaraf am roi cynlluniau gweithredu Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Tai Hafod ar waith i'w darparu ym mis Rhagfyr.
- Adroddiad am fethiant Ymddiriedolaeth GIG Sir Caerfyrddin ac Awdurdod Iechyd Dyfed Powys i gyrraedd targedau amser aros o 18 mis ar gyfer llawdriniaeth orthopedig mewn adroddiad misol yn y dyfodol.
- Dosbarthu Canllawiau Gweithredol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth y DU yn mynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch perfformiad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Diwyg y rhestr ddeddfwriaeth i'w newid, sef rhoi rhifau unigryw i'r eitemau, amlygu newidiadau ac ychwanegiadau a nodi a yw'r ddeddfwriaeth yn hannu o'r UE, y DU neu o Gymru'n unig.

**Eitem 3: Cynigion y Gyllideb ar gyfer 2003-04** *(10.10 - 10.50am)*

**Papur: HSS-18-02(p.2)**

3.1 Ymddiheurodd y Gweinidog am fod dau gamgymeriad yn y papur, sef:

- Yn ôl paragraff 19, roedd gostyngiad o £45 mil yng nghyllideb y Tribiwnlysoedd a'r Pwyllgorau Cynghori. Mewn gwirionedd, roedd cynnydd o £45 mil yn y gyllideb o'i gymharu â chynlluniau cynharach ar gyfer 2003-04 a chyfanswm o £300 mil ychwanegol yn y ddarpariaeth o'i gymharu â 2002-03.
- Roedd paragraff 28 yn cyfeirio at "gynnydd o £426 mil o'i gymharu â 2002-03" ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac roedd hynny'n anghywir. Roedd y cyfeiriad at ostyngiad o (£46 mil) yn gywir. Byddai gostyngiad o £46 mil yn y gyllideb o'i gymharu â 2003-04, a £74 mil fyddai

cyfanswm y gostyngiad o'i gymharu â'r ddarpariaeth ar gyfer 2002-03.

3.2 Tynnodd y Gweinidog sylw at y meysydd canlynol:

- Bwriedir buddsoddi £8 miliwn o arian cyfalaf yn y flwyddyn gyfredol i gaffael offer delweddu diagnostig newydd yn ganolog, gan gynnwys camerâu Gamma, systemau pelydr-X sgrinio'r fron ac offer sganio uwchsain.
- £4 miliwn ar gyfer offer labordy cathetr y galon yn Ysbyty Treforus ac Ysbyty Brenhinol Gwent. Byddai hyn yn darparu arian cyfatebol tuag at y £5 miliwn y mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn eu rhoi ar gyfer gwneud gwaith adeiladu a gosod offer.
- Hefyd eleni, £0.5 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer ehangu'r GIG a £0.45 miliwn i brynu tir ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn Ninbych-y-pysgod.
- Ar gyfer cynlluniau cyfalaf o 2003-04 ymlaen:
- Cynllun ar gyfer gwasanaethau newydd yn Ninbych-y-pysgod a De Sir Benfro;
- Arian ar gyfer ysbyty cymunedol newydd yn ardal Glyn Ebwy a Blaenau Gwent;
- Arian cyhoeddus ar gyfer yr ysbyty cymunedol newydd ym Merthyr Tudful;
- Arian cyhoeddus ar gyfer ailddatblygu gwasanaethau gofal iechyd cymunedol yng Nghwm Cynon;
- Adnewyddu theatrau ac adleoli adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin.
- Dyrannwyd £6.5 miliwn o arian cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Gyfan i ddarparu offer cyfathrebu digidol newydd. Prynir yr offer fel rhan o brosiect a gynhelir ledled y DU. Roedd yr arian hwn yn ychwanegol at y £2.5 miliwn o arian refeniw ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans brys y flwyddyn nesaf.
- Dyrannwyd cyfanswm o £3.8 biliwn o'r gyllideb arfaethedig ar gyfer iechyd y flwyddyn nesaf – cynnydd o 50 y cant yn y gyllideb yr oedd y Cynulliad wedi'i hetifeddu. Llwyddodd pob un o flaenoriaethau'r Pwyllgor i sicrhau arian ychwanegol.
- Dyrannwyd £322 miliwn o arian ychwanegol i'r GIG. Byddai byrddau iechyd lleol (BILlau) yn cael £205 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn nesaf. Roedd hwn yn gynnydd o 9.4 y cant ar gyfer gwasanaethau ysbytai ac iechyd cymunedol dewisol; 9 y cant ar ragnodi cyffuriau a chynnydd o 2.5 y cant ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Roedd bwriad i gyhoeddi dyraniadau drafft ar gyfer y BILlau cyn y Nadolig. Byddai hyn yn fodd i wella gwasanaethau iechyd allweddol ymhellach, gan gynnwys gwasanaethau canser, afiechyd coronaidd y galon ac iechyd meddwl.
- Ariannu'r Agenda ar gyfer Newid a'r contractau newydd i feddygon teulu a mwy na £68 miliwn ar gyfer:

| | |
|---|---|
| Cronfa newydd Rheoli Perfformiad a Chyllid y Cyfarwyddwr | £44 miliwn |
| Arloesi mewn Gofal | £1.3 miliwn |
| Buddsoddi mewn Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg | £3.2 miliwn |

| | |
|---|---|
| Ehangu Galw Iechyd Cymru | £2 miliwn |
| Cymhorthion nam ar y llygad | £1 miliwn |
| Rhoi Adroddiad Townsend ar waith yn nyraniadau'r BILlau | £4.1 miliwn |
| Arian refeniw gwasanaethau ambiwlans brys | £2.5 miliwn |
| Materion cyfrifo adnoddau | £7 miliwn |
| Cryfhau'r Cynghorau Iechyd Cymuned | £0.5 miliwn |
| Ehangu gwasanaethau sgrinio'r Fron y GIG | £0.5 miliwn |
| Cymhorthion awdioleg y dechnoleg newydd | £0.7 miliwn |
| Gwella profion sgrinio gwaed | £1 miliwn |
| Cyflwyno rhaglen gyffredinol sgrinio babanod newyddanedig | £0.8 miliwn |

- Roedd Derek Wanless wedi cytuno i fod yn ymgynghorydd i'r adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y cylch gorchwyl a chyfansoddiad terfynol ei dîm wrthi'n cael eu penderfynu.
- Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad iddo, roedd tablau'r gyllideb yn dangos cynnydd cymharol fach yn y llinellau gwariant ar iechyd yn y gyllideb ar gyfer 2004-05 a 2005-06 a swm sylweddol wrth gefn ar gyfer y ddwy flynedd honno.
- Erbyn 2005-06 byddai modd i'r gwasanaethau cymdeithasol wario tua £230 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol. Roedd hyn i'w gymharu â'r flwyddyn gyfredol 2002-03, a chan ystyried grantiau'r Cynulliad a setliad refeniw llywodraeth leol gyda'i gilydd.
- Roedd gwasanaethau cymdeithasol yn dal i fod yn flaenoriaeth. Roedd yr ychwanegiad o 11% a gyhoeddwyd yn y datganiad drafft ar y gyllideb yn cynnwys cynnydd yn nifer y grantiau penodol a ddarperir i wella gwasanaethau i blant ac ar gyfer rhaglenni newydd megis y Strategaeth ar gyfer Pobl Hn a Chyflawni'r Addewidion. Rhoddir cymorth ariannol ar gyfer mesurau i helpu awdurdodau lleol i dalu costau cyfalaf Deddf Safonau Gofal 2000, parhau i gynnal cynllun lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal a'r pecynnau gofal a chymorth ychwanegol a'r gost o ariannu newidiadau.
- Roedd y rhan fwyaf o wariant yr awdurdodau lleol ar y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i ddod drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol nad oedd wedi'i glustnodi at ddiben penodol. Cafodd y gyllideb ar gyfer llywodraeth leol groeso cyffredinol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Roedd yn cynrychioli cynnydd o 6.2% ar gyfer 2003-04 o'i gymharu â'r cynlluniau ar gyfer 2002-03. Roedd hyn yn darparu ar gyfer cynnydd sylweddol yng ngwariant y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd yn ddigon i gwrdd â phwysau'r taliadau a'r prisiau a nodwyd gan yr WLGA.

3.3 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau am y cynigion ar gyfer y gyllideb, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Ni fyddai costau rhedeg strwythur newydd y GIG yn fwy na chostau rhedeg y strwythur presennol.
- Roedd yr Hyblygrwydd Diwedd y Flwyddyn o £20 yn ychwanegol at y £110 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a ddarparwyd yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2003-04.
- Y cynnydd o £21 miliwn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant y GIG gan gynnwys darparu arian i'r ysgolion clinigol yng Ngogledd Cymru, Gwent a'r Ysgol Glinigol i Raddedigion yn Abertawe. Roedd yr achosion busnes ar gyfer yr ysgolion wrthi'n cael eu cwblhau.
- O fis Ebrill 2003, byddai Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau ambiwlans brys.
- Roedd arian wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd. Roedd yn rhaid gwneud ceisiadau am arian ac roedd rhai cynlluniau arloesol wedi'u datblygu yng Nghymru.
- Roedd rhwydweithiau clinigol cryf wrthi'n cael eu datblygu o ganlyniad i Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd Coronaidd y Galon ac roedd y rhwydweithiau hyn yn allweddol i'r broses o benderfynu lle roedd yr angen mwyaf o ran buddsoddi mewn gwasanaethau ychwanegol, megis offer cathetr ar gyfer labordai.

- Rhagwelwyd y byddai'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer pobl sy'n dioddef o broblemau â chyffuriau ac alcohol yn cael ei drosglwyddo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Byddai diddordeb gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o hyd yn y driniaeth a ddarperir ac mewn gwasanaethau ailsefydlu, a byddai'n mynd ati i gydweithio â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y mater hwn. Roedd adolygiad ar y gweill o'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru.
- Byddai'r gwasanaeth ar gyfer pobl â golwg gwan yn cael ei lansio yn y Gogledd ond byddai'n wasanaeth ar gyfer Cymru gyfan. Câi adroddiad am y datblygiadau diweddaraf ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol a byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Huw Lewis cyn i'r gwasanaeth gael ei lansio.
- Dim ond ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdodau lleol y byddai cyllid ar gael i helpu cartrefi gofal i fodloni'r safonau gofynnol newydd. Rydym hefyd yn darparu cyllid i wella a chynnig ffïoedd uwch i gartrefi gofal y sector preifat fel rhan o'r dull strategol o fynd ati i gynorthwyo'r sector hwnnw a fydd yn deillio o waith y Grp Strategaeth Gofal.

3.4 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn cydnabod y newidiadau a wnaed i'r papur ac yn cadarnhau bod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn y cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yn edrych ymlaen at weld yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau gwell i gleifion yng Nghymru. Roedd Adolygiad Wanless yn cael ei groesawu yng Nghymru ac roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael bod yn rhan o'r broses honno. Cydnabu'r Pwyllgor fod cyllideb y Gweinidog yn cydnabod ei flaenoriaethau ef fel pwyllgor, er y byddai'n dal i fonitro'r sefyllfa er mwyn gwneud yn siwr bod y cyllid ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn ddigonol. Er nad oedd honno'n flaenoriaeth y cytunwyd arni gan y Pwyllgor, cydnabu'r Cadeirydd fod Grp y Ceidwadwyr yn teimlo y dylai'r gyllideb ddarparu ar gyfer unrhyw gyllid y byddai ei angen o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig

i'r Rheoliadau Cymorth Gwladol.

**Camau i'w cymryd**

- Dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog gan amlinellu casgliadau'r Pwyllgor.
- Dylai'r Pwyllgor ystyried gwahodd Derek Wanless i un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol.
- Dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth i bobl â golwg gwan.
- Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at Huw Lewis cyn i'r gwasanaeth ar gyfer pobl â golwg gwan gael ei lansio.

**Eitem 4: Gwasanaethau Iechyd Arbenigol ar gyfer plant Cymru** *(11.05 - 11.40am)*

**Papurau: HSS-18-02(p.3)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a oedd yn amlinellu canlyniad y broses a gynhaliwyd gan Awdurdod Iechyd Dyfed-Powys o ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynigion i ddarparu gwasanaethau iechyd arbenigol ar gyfer plant Cymru ac a oedd yn nodi'r camau a oedd yn cael eu cymryd.

4.2 Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau a ganlyn:

- Croesawyd y cysyniad o rwydweithiau clinigol rheoledig a'r egwyddor bod pob aelod o'r rhwydwaith yr un mor werthfawr â'i gilydd. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod pawb o fewn y rhwydwaith yn gyfartal.
- Roedd yr Aelodau'n falch bod y Gweinidog yn ystyried a ddylid ad-dalu treuliau teithio a llety.
- Roedd gwersi gwerthfawr i'w dysgu o'r broses ymgynghori hon ynghylch sut i fynd ati i roi mwy o ran i'r cyhoedd yn y dyfodol.

4.3 Wrth ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- Yn ôl pob tebyg, rhywun o'r tu allan i Gymru fyddai'r cadeirydd annibynnol a fyddai'n goruchwylio'r broses o bwyso a mesur y dewisiadau ar gyfer gwasanaethau niwrolawfeddygol i blant.
- Byddai’r grp a fyddai'n pwyso a mesur y dewisiadau yn cynrychioli'r holl randdeiliaid a oedd â rhan yn y broses ymgynghori.
- Mater i Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru fyddai penodi athro i gadair mewn Gofal Brys Cyn-ysbyty, a lle i benodi'r athro hwnnw.

- Oni fyddai canlyniad y broses o bwyso a mesur yr amryfal ddewisiadau yn wahanol iawn i'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol, nid oedd bwriad i ail ymgynghori â'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

- Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn ystod pob cam o'r broses.

4.4. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Meddygol ei bod yn cydweithio'n agos â'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, a bod y Coleg hefyd yr un mor awyddus i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael yn barhaol i blant yng Nghymru. Dywedodd fod y Gwasanaeth wedi ymrwymo'n llwyr bron i'r cydsyniad o rwydwaith clinigol rheoledig. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd am egwyddorion allweddol rhwydweithiau clinigol rheoledig. Y prif flaenoriaeth oedd paratoi set o safonau a fyddai'n pennu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plentyn, ond roedd angen hefyd ystyried yr ail flaenoriaeth, sef darparu gofal mor agos i'r cartref â phosibl. Dywedodd fod camddealltwriaeth gyffredin am y term niwrolawfeddygaeth, gan fod rhai o'r farn mai dim ond at ymyrraeth niwrolawfeddygol yr oedd yn cyfeirio. Un o egwyddorion y gweithgorau oedd bod yr un gwerth i bob math o ofal a roddir i'r plentyn, a bod yn rhaid i'r gofal hwnnw fod yn rhan o lwybr gofal sy'n anelu at ragoriaeth, lle nad oedd un elfen unigol yn bwysicach nag un arall.

**Eitem 5: Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig -** *(11.40-12.15pm)*

**Papurau: HSS-18-02(p.4) a HSS-18-02(p.5)**

5.1 Roedd copi drafft o adroddiad y Pwyllgor wedi'i ddosbarthu. Amgaeir copi yn Atodiad B o'r gwelliannau a awgrymwyd gan yr Aelodau.

5.2 Cytunwyd ar yr holl welliannau, yn amodol ar ddileu "*teuluoedd anhrefnus (neu ansefydlog neu gythryblus"* o'r gwelliant cyntaf a gyflwynwyd gan Ann Jones.

5.3 Roedd prynhawn dydd Mercher,12 Medi wedi'i nodi'n ddyddiad posibl ar gyfer lansio'r adroddiad, a gofynnwyd i'r Clerc holi am y posibilrwydd o ddefnyddio un o'r canolfannau plant yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr adolygiad.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau a swyddogion yr

is-adrannau polisi am eu gwaith wrth lunio'r adroddiad. Diolchodd hefyd i'r bobl hynny a oedd wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor neu a oedd wedi cyfrannu ar yr adolygiad mewn ffyrdd eraill.

**Eitem 6: Cofnodion 17 Gorffennaf ac 11 Medi 2002** *(12.15 - 12.20pm)*

**Papurau: HSS-16-02(min) a HSS-17-02(min)**

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf.

6.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi.

**Eitem 7: Pwyntiau y mae angen gweithredu arnynt**

7.1 Dywedodd Brian Gibbons fod Maria Michael wedi anfon llythyr ato mewn ymateb i'w gwestiwn ynghylch a yw pobl sydd wedi'u hatal o'r gwaith yn gymwys i gael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu, fel aelod unigol, at yr Adran Gwaith a Phensiynau ac wedi cael yr un ateb safonol. Gofynnodd i'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i ddwyn sylw at yr anghysondeb hwn a gofyn am ymateb manwl.

**Camau i'w cymryd**

- Dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddwyn sylw at bryderon y Pwyllgor ynghylch cymhwyster pobl sydd wedi'u hatal o'u gwaith i gael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio.

**Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

8.1 Dywedodd Geraint Davies fod y Gymdeithas Fferyllol yn gobeithio trefnu cyflwyniad yn y dyfodol agos ar ddulliau awtomataidd o baratoi presgripsiynau.

**Atodiad A**

**Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) "O Bwys i Bawb" - Archwiliad o Drefniadau a wnaed gan Gaerdydd a Bro Morgannwg i Ddiogelu Pobl**

**Hn yng Nghartrefi Hafod**

Yr wyf yn falch o gael cyflwyno adroddiad a chyhoeddi canfyddiadau'r archwiliad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) i'r trefniadau i ddiogelu trigolion mewn cartrefi a gontractiwyd gan Gyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i Gymdeithas Tai Hafod.

Roedd cryn dipyn o waith yn gysylltiedig â'r broses. Cynhaliwyd cyfweliadau â thua 150 o bobl yn ystod y gwaith maes, a chysylltwyd â rhyw 30 o drigolion mewn rhai o gartrefi Hafod heblaw am Hazelcroft.

Ceisiwyd cysylltu â phob un a oedd yn byw yn Hazelcroft pan gafodd ei gau. Cynhaliwyd cyfweliadau â 19 o'r cyn drigolion. Yn yr achosion eraill, roedd rhai yn rhy sâl neu nid oedd yn bosibl eu gweld felly cysylltwyd â'u teuluoedd. Siaradwyd â bron pob un ohonynt a gofynnwyd iddynt am eu barn. Gwnaeth AGCC yn siwr bod pawb a oedd yn dymuno siarad â hi wedi cael gwneud hynny.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r trefniadau lle roedd yr awdurdodau lleol yn darparu'r rheolwr gofal a'r staff gofal, a Hafod yn berson cofrestredig ac yn darparu'r rheolwr cofrestredig ar gyfer y llety. O ganlyniad, daw'r adroddiad i'r casgliad hwn, "bod y prif ddulliau o ddiogelu lles y preswylwyr un ai heb eu defnyddio, neu'n aneffeithiol neu'n ddryslyd... Credwn fod y dryswch o ran atebolrwydd yn peri risgiau ohono'i hun o ran diogelu preswylwyr." Serch hynny, yr wyf yn dawel fy meddwl bod y rhan fwyaf o drigolion Hazelcroft a'r cartrefi eraill, ynghyd â'u teuluoedd, yn canmol y gofal a gafwyd. At ei gilydd, roedd safon y gofal a ddarparwyd gan y cartrefi eraill yn foddhaol, ac roedd yna enghreifftiau o arferion da.

Bellach, mae cartref Hazelcroft wedi cau, ond mae'n bwysig ein bod yn ystyried y canfyddiadau a'r goblygiadau ehangach o ran gofalu am bobl hn, ac yn gweithredu arnynt. Mae'r adroddiad yn gwneud 26 o argymhellion ynghylch gwella'r atebolrwydd am sicrhau lles trigolion, ac ynghylch gwneud yn siwr bod pawb yn gwbl glir am yr atebolrwydd hwnnw. Er mai cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerdydd, Bro Morgannwg a Hafod fydd gweithredu'r rhain, bydd gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC), a sefydlwyd ym mis Ebrill 2002, ran hanfodol i'w chwarae hefyd o safbwynt sicrhau bod cartrefi'n cydymffurfio â'r rheoliadau angenrheidiol.

Rwyf yn gofyn i AGCC yn achos yr awdurdodau lleol, ac ASGC yn achos Hafod, i fonitro'r cynlluniau gweithredu y galwyd amdanynt mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Yn achos Caerdydd, bydd y gwaith hwn yn rhan o'r cynllun gweithredu sy'n cael ei baratoi mewn ymateb i'r Adolygiad ar y Cyd a gyhoeddwyd fis diwethaf. Byddaf yn gofyn am adroddiad ar hynt y gwaith hwn er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2002.

**Atodiad B**

**Sylwadau gan yr Aelodau**

| **Cyf** | **Aelod** | **Sylw** |
|---|---|---|
| 3.1 | Ann Jones | **Argymhellion -** 3ydd pwynt bwled, ei newid i ".....teuluoedd dan anfantais, *teuluoedd anhrefnus (neu ansefydlog neu gythryblus)*, teithwyr a theuluoedd symudol, *rhieni unigol ifanc, rhieni babanod o bwysau geni isel*, grwpiau ethnig a grwpiau lleiafrifol eraill..... |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Brian Gibbons | **Argymhellion-**<br><br>4ydd pwynt bwled - ei newid i "sgrinio cyn geni *ar sail tystiolaeth*"<br><br>Oes yna hefyd fater yn codi ynghylch cynghori a chyngor cyn-cenhedlu?<br><br>*(Sylw gan y Clerc - daeth tystiolaeth ysgrifenedig i law oddi wrth Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn cyfeirio at y gwasanaethau genetig a gynigir ganddo. Fodd bynnag, ni thrafododd y Pwyllgor gynghori/ cyngor cyn-cenhedlu.)* |
| | | |
| 3.2.5 | Brian Gibbons | Mae'n gofyn a yw'r wybodaeth hon ar y we. *(Nodyn y Clerc: Ydyw, ond nid yw'n hawdd i rywun dibrofiad ddod o hyd iddi. Gallem gynnwys cyfeiriad y wefan.)* |
| | | |
| 3.2 | Brian Gibbons | **Argymhellion:** 2**ail** bwynt bwled, ychwanegu ar y diwedd *"lle dylid cynnig gwasanaethau cynghori genetig priodol."* |
| | | |
| 3.3.11 | Brian Gibbons | Mae'n awgrymu y dylid ychwanegu brawddeg sy'n dweud y dylid trefnu bod rhyw fath o wybodaeth ysgrifenedig yn cael ei dosbarthu os nad yw'n bosibl i rywun fod yn bresennol.<br><br>Mae'n awgrymu hefyd y dylid ystyried y rhan gynyddol y gall fideogynadledda ei chwarae. *(Sylw gan y Clerc: cyfeirir at ddefnyddio cyfleusterau fideogynadledda.)* |
| | | |
| 3.3.11 | Gwenda Thomas | Ychwanegu paragraff fel a ganlyn:<br><br>*"Mae angen cydnabod yn llawn y cyfnod o newid a geir wrth symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, ac mae angen paratoi ar ei gyfer ymhell cyn iddo ddigwydd."* |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.3 | Brian Gibbons | O dan yr adran hon, mae Brian yn cyfeirio hefyd at y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor am bwysigrwydd rhoi cyngor am fudd-daliadau a photensial y cyngor hwnnw i wella incwm teuluoedd. *(Sylw gan y Clerc: efallai y gellid nodi hyn yn fwy clir yn yr adran flaenorol yn 3.2.4, lle cyfeirir at y gweithiwr allweddol fel rhywun a allai gydlynu gwybodaeth yn ogystal â sicrhau gwasanaethau eraill.)* |
| | | |
| 3.3 | Brian Gibbons | **Argymhellion** 3ydd pwynt bwled, a ddylid dweud unrhyw beth am y posibilrwydd o ddefnyddio'r cofnod iechyd electronig fel modd o rannu gwybodaeth? *(Sylw gan y Clerc: ni chyfeiriwyd at hyn yn ystod y drafodaeth.)* |
| | | |
| 3.4.14 | Gwenda Thomas | Ychwanegu paragraff, fel a ganlyn:<br><br>*"Mae angen nodi pwy ddylai fod yn gyfrifol am roi unrhyw feddyginiaeth i blant tra'u bod yn yr ysgol, yn enwedig pan nad oes gan ysgol ei nyrs ei hun neu pan nad oes un ar gael."*<br><br>*(Sylw'r Clerc - byddai'r sylwadau'n fwy clir pe bai'r frawddeg gyntaf yn cael ei hail eirio fel a ganlyn: "Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol gytuno ar brotocol gyda'r awdurdod addysg lleol sy'n nodi pwy ddylai fod yn gyfrifol am roi unrhyw feddyginiaeth...."?* |
| 3.4 | David Melding | Argymhellion - 2ail bwynt bwled. Fel y mae, gallai awgrymu y byddai safon broffesiynol therapyddion lleferydd yn cael ei glastwreiddio. Mae'n awgrymu'r canlynol:<br><br>*"Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cynorthwywyr therapi lleferydd i gynnig gwasanaethau therapi lleferydd sylfaenol o dan oruchwyliaeth."* |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.5.8 | Gwenda Thomas | Ychwanegu brawddeg ar ddiwedd y paragraff, fel a ganlyn:<br><br>"Mae angen cydnabod pa mor hanfodol yw darparu gofal seibiant i deuluoedd pan fo argyfwng yn y cartref."<br><br>*(Sylw gan y Clerc: efallai y byddai'r frawddeg hon yn fwy priodol ym mharagraff 3.5.13, o dan y casgliadau.)* |
| | | |
| 3.6.6. | Brian Gibbons | Yr angen am gyngor cytbwys am fudd-daliadau *(Sylw gan y Clerc: rwy'n cymryd mai cyfeirio at gymhwyster i gael grant cyfleusterau i'r anabl y mae'r sylw hwn. Gellid ei ychwanegu fel argymhelliad arall.)* |
| 3.5 | David Melding | Yr Argymhellion: ychwanegu:<br><br>• "*Rhaid ystyried bod darparu gwasanaethau seibiant effeithiol a hyblyg yn gwbl anhepgor er mwyn cynnal cyfrifoldebau gofal o fewn teuluoedd.*<br>• *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i gefnogi 'Canolfan Gymorth a Chyngor ar Anghenion Arbennig' i ddarparu gwasanaethau i blant a chymorth i ofalwyr ac i deuluoedd."* |
| 3.6 | David Melding | Yr Argymhellion: ychwanegu:<br><br>• *"Dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod cymhorthion, cyfarpar ac addasiadau'n diwallu'r diben ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Felly mae'n rhaid ail-werthuso addasrwydd deunyddiau'n rheolaidd wrth i'r plant dyfu'n hn."* |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.7 | Brian Gibbons | **Yr Argymhellion**: Mae'n gofyn a oes gwrthdaro rhwng y datganiad bod *"llawer o arfer da amlwg mewn addysg anghenion arbennig o amgylch Cymru, a dylid ei ddilysu a'i ledaenu"* a'r datganiad yn rhagair y Cadeirydd bod *" enghreifftiau o arfer da."*<br><br>*(Sylw gan y Clerc. Mae'r argymhelliad yn 3.7 yn cyfeirio at Anghenion Addysgol Arbennig. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod datblygiadau da i'w gweld ym maes Anghenion Addysgol Arbennig, ond ni roddwyd enghreifftiau.)* |
| 3.7 | David Melding | ***Yr Argymhellion:*** *ychwanegu:*<br><br>• *"Dylid croesawu'r tueddiad i ddarparu ar gyfer anghenion arbennig mewn lleoliad yn y brif ffrwd, ond dylid rhoi mwy o bwyslais ar fonitro gwasanaethau anghenion arbennig er mwyn gwnud yn siwr nad ydynt yn cael eu glastwreiddio.*<br><br>• *Dylai'r Fframwiath Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant gynnwys is-adran fanwl am anghenion addysgol arbennig ac anghenion iechyd arbennig.*<br><br>• *Dylid enwebu un o aelodau pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am wasanaethau plant ac am hawliau plant.*<br>• *Mae angen rhoi sylw ar fyrder i blant o dan 5 oed sydd ag anghenion iechyd dwys er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael yr addysg cyn-ysgol briodol.* |

**Atodiad C**

**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health and Social Services Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Jane Hutt AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eich cyf / Your ref

Ein cyf / Our Ref HSS- 18-02

25 Hydref 2002

**CYNIGION Y GYLLIDEB AR GYFER 2003-2004**

Diolch i chi am eich cyflwyniad cynhwysfawr ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2003-2004 yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 23 Hydref.

Nododd y Pwyllgor y cywiriadau llafar a wnaed i'r papur (HSS-18-02(p.2)) mewn perthynas â Thribiwnlysoedd a Phwyllgorau Cynghori (paragraff 19) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (paragraff 28). Mae'r newidiadau hyn wedi'u nodi yn y cofnodion.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yn edrych ymlaen at weld yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i wella gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn falch eich bod wedi cydnabod ei flaenoriaethau yn y gyllideb, a bydd yn monitro sut yr aiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i gyflawni'r gofynion hynny. Bydd y Pwyllgor yn talu sylw arbennig i'r cyllid ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans, a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth honno.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd Derek Wanless yn arwain yr adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a byddwn yn disgwyl yn eiddgar am ganfyddiadau'r gwaith hwnnw.

Hoffwn hefyd ddwyn i'ch sylw farn grp y Ceidwadwyr ynghylch yr angen i ddarparu yn y gyllideb ar gyfer unrhyw gyllid y bydd ei angen o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau Cymorth Gwladol.

Kirsty Williams AC

Cadeirydd